CARDIFF
CAERDYDD

# CYNGOR CAERDYDD
# CARDIFF COUNCIL
# Adroddiad Blynyddol i Aelodau Etholedig 2018
# Annual Report for Elected Members 2018

**Cynghorydd/Councillor: Phil Bale** **Plaid/ Party: Y Blaid Lafur a Chydweithredol**

**Ward: Llanisien/Llanishen** **Etholwyd yn Gyntaf/ First Elected: Mai 2012**

Mae'r adroddiad yn nodi fy mhrif weithgareddau dros flwyddyn ddinesig 2017/18 sy'n dod i ben 24 Mai 2018. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr a dim at unrhyw ddiben arall.

**Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau**

Ro'n i'n falch o gael fy ail-ethol fel Cynghorydd Llafur a Chydweithredol dros Lanisien a Thornhill. Cefais fy ethol yn y lle cyntaf ar 3 Mai 2012.

Rwy'n Aelod o'r Pwyllgor Archwilio.
Gellir gweld y Cofnod Presenoldeb yma: Presenoldeb
Gellir gweld y Cofnod Dysgu a Datblygu yma: Dysgu

**Adran 2: Gweithgareddau Etholaeth**

Mae Llanisien yn ward mawr iawn yng Nghaerdydd ac yn cael ei gynrychioli gan bedwar Cynghorydd y Ddinas. Yn etholiadau lleol Mai 2017, ro'n i'n falch o gael fy ail-ethol i barhau i wasanaethu ar Gyngor y Ddinas.

Yn ystod y flwyddyn gwelwyd llwyddiannau lleol nodedig, sydd mewn sawl achos wedi cymryd nifer o flynyddoedd i ddwyn ffrwyth. Roedd Cynllun Gwella Trenchard Drive, y gweithiais arno gyda'r cyn-Gynghorydd, Garry Hunt, yn broject o'r fath. Cafodd ei gwblhau yn gynharach yn y flwyddyn ac mae wedi dod â llawer o fuddsoddiad sydd wir ei angen i dai cymdeithasol, ffyrdd a mannau cyhoeddus lleol. Fe wnes i hefyd weithio gydag Ysgol Gynradd Ysgol y Wern a'r Cyngor i sicrhau bolardiau newydd i atal parcio y tu allan i'r ysgol ar Llangranog Road i helpu i wella diogelwch i gerddwyr. Mae e wastad yn broses anodd a hir iawn, i sicrhau gwelliannau priffyrdd oherwydd cyllid cyfyngedig y Cyngor ond cafodd cynllun diogelwch ar y ffyrdd arall ar Lisvane Road hefyd ei gwblhau eleni. Rwyf wedi parhau i lobïo ar gyfer sawl un arall!

Rwyf hefyd wedi cynnal cymorthfeydd cyngor, mynychu llawer o ddigwyddiadau cymunedol a chasgliadau sbwriel lleol ac wedi parhau i weithio gyda Dŵr Cymru i adfer Cronfa Ddŵr Llanisien. Rwyf hefyd wedi cael cymysgedd mawr ac amrywiol o achosion i ddelio â hwy ar

ran preswylwyr. Mae'r rhain wedi cynnwys cwrdd â'r Bwrdd Iechyd lleol ar ôl i Glinig Llanisien ar Newborough Avenue gael ei gau a gwasanaethau meddyg teulu lleol gael eu symud i Gabalfa gyda fawr ddim rhybudd (o 1 Rhagfyr 2017). Rwyf hefyd wedi helpu preswylwyr sy'n bryderus am y gwaith stryd a oedd yn cael ei wneud gan Virgin Media wrth i rwydwaith band-eang tra chyflym newydd gael ei osod, gan drefnu nifer o ddigwyddiadau galw heibio i breswylwyr lleol gyda chynrychiolwyr Virgin.

Yn Ebrill, trefnais un o'r cyfarfodydd cyhoeddus mwyaf a welwyd yn Thornhill mewn blynyddoedd gyda dros 100 o bobl yn bresennol i drafod gwasanaethau bws lleol ac yn benodol, creu llwybr newydd i wasanaeth bws X8 NAT i lawr stryd breswyl yn Thornhill heb unrhyw ymgynghori. O ganlyniad i bwysau gan breswylwyr a chynghorwyr, cytunodd Grŵp NAT i gynnal holiadur gyda phreswylwyr lleol i benderfynu ar y ffordd orau ymlaen.

Cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus annigonol yn ogystal â chyflwr ffyrdd lleol a phroblemau parcio oedd rhai o'r problemau a godwyd amlaf yn ystod 2017/18, yn ogystal â sawl cais cynllunio cynhennus a diffyg tai fforddiadwy lleol.

Gydol y flwyddyn, rwyf hefyd wedi parhau i gyfathrebu gyda phreswylwyr trwy fy nghylchlythyr lleol rheolaidd ac ar fy nhudalen Facebook **'Cllr Phil Bale – Llanishen and Thornhill News**'. Mae'r dudalen hon wedi dod yn boblogaidd iawn gyda phreswylwyr lleol ac mae wedi cael dros 900 o ddilynwyr mewn ychydig dros flwyddyn!

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Roedd uchafbwynt 2017/18 ar ddiwedd Tachwedd, lle gwelwyd canlyniadau pum mlynedd o waith gyda'r llyfrgell a'r hyb cymunedol newydd yn agor yn adeilad Gorsaf Heddlu Llanisien. Ymwelodd dros 700 o bobl â hyb newydd Llanisien yn ystod y digwyddiad lansio, a oedd yr un pryd â'r digwyddiad blynyddol Troi'r Goleuadau Nadolig Ymlaen ym mhentref Llanisien.

Pan gefais fy ethol yn y lle cyntaf yn 2012, roedd e'n edrych yn debygol y byddai gorsaf yr heddlu yn gorfod cau ac roedd yr hen lyfrgell rhan amser ym mhentref Llanisien hefyd yn wynebu dyfodol ansicr. Nawr ar ôl ymgyrch lwyddiannus gyda Julie Morgan AS a chyn gynghorwyr Llanisien, Garry Hunt a Julia Magill mae gennym lyfrgell llawn amser newydd sy'n cynnig ardal ddarllen i blant yn ogystal ag ystod o wasanaethau cyngor a chyrsiau hyfforddiant. I fyny'r grisiau, mae'r heddlu lleol dal wedi'u lleoli ar y llawr cyntaf ac yn parhau i gynnal cyfarfodydd cymunedol a digwyddiadau galw heibio lleol. Mae'n werth ymweld â'r hyb newydd os nad ydych wedi cael cyfle i alw heibio'n barod!

**Y Cynghorydd Phil Bale**